OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

## 2013 Rhif 2021 (Cy. 199)

## ADDYSG, CYMRU

# Gorchymyn Ciniawau Ysgol a Llaeth am Ddim (Credyd Cynhwysol) (Cymru) 2013

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn rhagnodi, at ddibenion adran 512ZB o Ddeddf Addysg 1996, pan fo person neu ei riant yn cael credyd cynhwysol ar neu ar ôl 6 Medi 2013, ei fod o fewn adran 512ZB(4).

Mae personau sydd o fewn adran 512ZB(4) yn gymwys i gael ciniawau ysgol a llaeth am ddim pan wnaed cais ganddynt (neu ar eu rhan) fod y rhain yn cael eu darparu am ddim.

## 2013 No. 2021 (W. 199)

## EDUCATION, WALES

# The Free School Lunches and Milk (Universal Credit) (Wales) Order 2013

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Order)*

This Order prescribes, for the purposes of section 512ZB of the Education Act 1996, that where a person or their parent is in receipt of universal credit on or after 6 September 2013, they are within section 512ZB(4).

Persons within section 512ZB(4) are eligible for free school lunches and milk when a request has been made by them (or on their behalf) that these be provided free of charge.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 Rhif 2021 (Cy. 199)

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn Ciniawau Ysgol a Llaeth am Ddim (Credyd Cynhwysol) (Cymru) 2013

*Gwnaed* *15 Awst 2013*

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* *16 Awst 2013*

*Yn dod i rym* *6 Medi 2013*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 512ZB(4)(a)(ai), 512ZB(4)(b)(ai) a 568 o Ddeddf Addysg 1996(**1**), ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

**Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Ciniawau Ysgol a Llaeth am Ddim (Credyd Cynhwysol) (Cymru) 2013 a daw i rym ar 6 Medi 2013.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Gorchymyn hwn —

ystyr "credyd cynhwysol" ("*universal credit*") yw credyd cynhwysol o dan Ran 1 o Ddeddf Diwygio Lles 2012(**3**); ac

(**1**) 1996 p.56. Mewnosodwyd adran 512ZB gan adran 201 o Ddeddf Addysg 2002. Mewnosodwyd is-adran (4)(a)(ai) gan adran 31 o Ddeddf Diwygio Lles 2012 a pharagraffau 37 a 39(a) o Atodlen 2 iddi. Mewnosodwyd is-adran (4)(b)(ai) gan adran 31 o Ddeddf Diwygio Lles 2012 a pharagraffau 37 a 39(b) o Atodlen 2 iddi. Yn rhinwedd adran 512 o Ddeddf Addysg 1996, ystyr "prescribed" yn adran 512ZB yw wedi ei ragnodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol drwy orchymyn.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac yna i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(**3**) 2012 p.5.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2013 No. 2021 (W. 199)

# EDUCATION, WALES

## The Free School Lunches and Milk (Universal Credit) (Wales) Order 2013

*Made* *15 August 2013*

*Laid before the National Assembly for Wales* *16 August 2013*

*Coming into force* *6 September 2013*

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred on the Secretary of State by sections 512ZB(4)(a)(ai), 512ZB(4)(b)(ai) and 568 of the Education Act 1996(**1**), and now vested in them(**2**), make the following Order:

**Title, commencement, application and interpretation**

**1.**—(1) The title of this Order is the Free School Lunches and Milk (Universal Credit) (Wales) Order 2013 and it comes into force on 6 September 2013.

(2) This Order applies in relation to Wales.

(3) In this Order —

"the 1996 Act" ("Deddf 1996") means the Education Act 1996; and

(**1**) 1996 c.56. Section 512ZB was inserted by section 201 of the Education Act 2002. Subsection (4)(a)(ai) was inserted by section 31 of, and paragraphs 37 and 39(a) of schedule 2 to the Welfare Reform Act 2012. Subsection (4)(b)(ai) was inserted by section 31 of, and paragraphs 37 and 39(b) of schedule 2 to, the Welfare Reform Act 2012. By virtue of section 512 of the Education Act 1996, "prescribed" in section 512ZB means prescribed by the Secretary of State by order.

(**2**) The functions of the Secretary of State were transferred to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I.1999/672) and then to the Welsh Ministers by paragraph 30 of schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c.32).

ystyr “Deddf 1996” (“*the 1996 Act*”) yw Deddf Addysg 1996.

**Amgylchiadau rhagnodedig: cael credyd cynhwysol**

**2.**—(1) Yr amgylchiadau sydd wedi eu rhagnodi at ddibenion adran 512ZB(4)(a)(ai) o Ddeddf 1996 yw bod rhiant C yn cael credyd cynhwysol ar neu ar ôl 6 Medi 2013(**1**).

(2) Yr amgylchiadau sydd wedi eu rhagnodi at ddibenion adran 512ZB(4)(b)(ai) o Ddeddf 1996 yw bod C yn cael credyd cynhwysol ar neu ar ôl 6 Medi 2013.

“universal credit” (“credyd cynhwysol”) means universal credit under Part 1 of the Welfare Reform Act 2012.(**1**)

**Prescribed circumstances: receipt of universal credit**

**2.**—(1) The circumstances that are prescribed for the purposes of section 512ZB(4)(a)(ai) of the 1996 Act are that C’s parent is in receipt of universal credit on or after 6 September 2013.(**2**)

(2) The circumstances that are prescribed for the purposes of section 512ZB(4)(b)(ai) of the 1996 Act are that C is in receipt of universal credit on or after 6 September 2013.

*Huw Lewis*

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

15 Awst 2013

Minister for Education and Skills, one of the Welsh Ministers

15 August 2013

©ⓗ Hawlfraint y Goron 2013

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2013

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty’s Stationery Office and Queen’s Printer of Acts of Parliament.

(**1**) Ystyr “C” yn adran 512ZB(4) yw’r person y penderfynir ar ei gymhwystra i gael ciniawau ysgol am ddim.

(**1**) 2012 c.5

(**2**) Section 512ZB(4) uses “C” to mean the person for whom eligibility for free school lunches is being determined.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 Rhif 2021 (Cy. 199)

## ADDYSG, CYMRU

Gorchymyn Ciniawau Ysgol a Llaeth am Ddim (Credyd Cynhwysol) (Cymru) 2013

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2013 No. 2021 (W. 199)

## EDUCATION, WALES

The Free School Lunches and Milk (Universal Credit) (Wales) Order 2013

ISBN 978-0-348-10796-8

9 780348 107968

£4.00

W1696/08/13 ON